**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 3) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Diogelu'r Amgylchedd i'w osod gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) 2024 (Cychwyn Rhif 3) 2026. Mae hyn yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 3) 2026.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**19 Ionawr 2026**

## 1. Diben a throsolwg

1.1. Bydd Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 3) 2026 (“y Gorchymyn”) yn dod ag adran 7 (monitro hynt cyflawni targedau) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (“y Ddeddf”) i rym. Bydd adran 7 yn cael ei chychwyn ar 23 Ionawr 2026.

1.2. Dyma'r trydydd Gorchymyn Cychwyn a wnaed mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae'r ‘Tabl nodiadau am y gorchmynion cychwyn cynharach’ a geir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Gorchymyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol am yr adrannau hynny sydd eisoes wedi'u cychwyn.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae’r Gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 30 o'r Ddeddf. Er nad yw'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i broses y Senedd, rhaid iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.2. Mae adran 1(1) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy’n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Mae adran 1(2) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer hwn i osod targed hirdymor mewn cysylltiad ag un o'r llygryddion a ganlyn: amonia; $PM_{10}$; nitrogen deuocsid; sylffwr deuocsid; osôn ar lefel y ddaear; neu garbon monocsid. O dan y Ddeddf, rhaid gosod y rheoliadau hyn gerbron y Senedd erbyn Chwefror 2030. Mae adran 2(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru. Rhaid gosod y rheoliadau hyn gerbron y Senedd erbyn Chwefror 2027. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar reoliadau i weithredu targedau llymach ar gyfer $PM_{2.5}$. Daeth adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis a oedd yn dechrau â'r diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol (ar 14 Chwefror 2024).

3.3. Mae targedau a osodir mewn rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cychwyn adran 7.

3.4. Mae adran 7(1) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru drefnu cael gafael ar ddata ynghylch ansawdd aer yng Nghymru i alluogi monitro hynt cyflawni targedau a osodir o dan adran 1 neu adran 2. At hynny, mae adran 7(2) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddata a geir o dan is-adran (1) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

4.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Gorchymyn. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.